Snog – Caryl Parry Jones

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
sa i'n	nid wyf; dwi ddim
moyn	eisiau
gloi (cloi/clou/clau)	cyflym
ffili	methu
ache (achau)	amser maith
whare	chwarae
sha	tua
benbleth (penbleth)	rhywbeth sy'n creu dryswch ac ansicrwydd

Brys – Ken Griffiths

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
rown	roeddwn
fyned (myned)	mynd
toc	cyn bo hir

Bws Ysgol – Gwion Hallam

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
artaith	poen mawr wedi ei achosi'n fwriadol (*torture*)
seddau mawr cartŵn	mae'r seddau'n edrych yn fwy oherwydd bod y plant mor fach, yn yr un modd ag y mae popeth yn cael eu chwyddo i fyny mewn delweddau cartŵnaidd
hunllef	breuddwyd cas
hefo'i	efo'i, gyda'i
yn gwrando'n chwys	mae'r bachgen yn chwysu yn ei sedd gan ddisgwyl clywed geiriau creulon y bwli
sgript	geiriau cymeriadau mewn drama neu ffilm
grenêd	bom bychan i'w daflu â llaw
homos	gair dilornus am ddynion cyfunrywiol neu hoyw, yn dod o'r gair Saesneg *homosexual*
chwislan	chwibanu

Ar y Ffôn – Iwan Llwyd

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
glustfeinio (clustfeinio)	gwrando'n ofalus iawn
hogia	bechgyn
genod	merched
gantata (cantata)	darn o gerddoriaeth grefyddol ar gyfer côr
Tŵr Babel	stori o'r Beibl sy'n esbonio sut y crewyd holl wahanol ieithoedd y ddaear

Linda Waz Ere – Aled Lewis Evans

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
cyfarch	dweud 'Helô', siarad yn uniongyrchol â
rŵan	nawr
nabod	adnabod
d'ymgais	dy ymgais
anfarwoldeb	cael byw am byth
d'ymgais at anfarwoldeb	awydd i gael dy gofio am byth
a thithau awydd	a thi hefyd ag awydd; a thi hefyd yn awyddus i
d'ôl	dy ôl
'ma	yma
fandaleiddio	gwneud niwed i eiddo yn fwriadol
argraff	marc, ôl (*impression*)
marwoldeb	y ffaith ein bod ni i gyd yn marw yn y pen draw (*mortality*)
dynoliaeth	holl bobl y byd erioed, yr hil ddynol (*mankind*)